**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 24 Hydref 2023**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriad. |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Y Cynghorydd Jason McLellan – Cysylltiad Personol sy’n Rhagfarnu – Eitem rhif 5 ar y Rhaglen. |
| **3** | MATERION BRYS | Ni chodwyd unrhyw faterion brys. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Medi 2023 a chadarnhau eu bod yn gywir.* |
| **5** | DATRYSIAD STORIO AR GYFER EIN CASGLIADAU ARCHIFAU | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) cefnogi Dewis 2 fel y dewis a ffefrir, h.y. (yn amodol ar gais llwyddiannus, gweler (b) isod) adeiladu cyfleuster archifau newydd ar y cyd ar gampws Theatr Clwyd yn yr Wyddgrug, i symud casgliadau ein harchifau o Garchar Rhuthun, a datblygu cynllun gweithgareddau sy’n seiliedig ar y gymuned i gyrraedd cymunedau ledled Sir Ddinbych. Yr oedd crynodeb manwl o’r dewisiadau a oedd ar gael wedi ei ddarparu yn Atodiad A yr adroddiad;*<br><br>*(b) awdurdodi swyddogion i gyflwyno cais am gyllid ar y cyd gyda Chyngor Sir y Fflint i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol Cymru, yn ceisio grant cyfalaf o £7 miliwn i ariannu adeilad di-garbon pwrpasol ar gampws Theatr Clwyd;*<br><br>*(c) dyrannu £2,052,358 o gyllid cyfalaf Cyngor Sir Ddinbych fel ein harian cyfatebol tuag at y cyfleuster archifau newydd ar y cyd, yn amodol ar gais llwyddiannus am gyllid gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol;*<br><br>*(d) cefnogi paratoi cynlluniau i wella’r cynnig i ymwelwyr yng Ngharchar Rhuthun, gan gynnwys cadw presenoldeb yr archifau ar y safle, a bydd y gwasanaeth yn agored bum* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *niwrnod yr wythnos gyda gwasanaeth digidol ar gael drwy gydol yr amser, a gwasanaeth archifydd ar un o'r dyddiau hynny o leiaf; a*<br><br>*(e) chadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad C yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.* |
| **6** | YSGUBORIAU HALEN (DE) LÔN PARCWR A CHORWEN | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) cymeradwyo proses dendro a chaffael y prosiect er mwyn datblygu adeiladau newydd a hwyluso storfa ddiogel a chywir ar gyfer halen at ddibenion gweithrediadau cynnal a chadw'r gaeaf sydd yn gwasanaethu de'r Sir, ynghyd â gwelliannau llety a storfa offer a lles yn safle Corwen, a*<br><br>*(b) chadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad A yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.* |
| **7** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2023/24 a'r cynnydd yn ôl y strategaeth y cytunwyd arni;*<br><br>*(b) cymeradwyo'r cynnig i osod cyfleusterau newydd ar gyfer storio halen yn Nepo Parc Cinmel ym Modelwyddan, fel y nodir yn Adran 6.9 ac Atodiad 5 yr adroddiad; a*<br><br>*(c) nodi'r defnydd o arian at raid y Rhaglen Gyfalaf i dalu am y gorwariant a ragwelir ar gynllun atgyweirio'r Wal yng Ngardd yr Arglwydd yn Nant Clwyd y Dre, fel y nodir yn Adran 6.10 yr adroddiad.* |
| **8** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL | ***PENDERFYNWYD*** *nodi rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet*. |

**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 24 Hydref 2023**

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|